

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Cardiff / Caerdydd
CF10 4BZ

Phone / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.cymru / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd Sirol Cyngor Sir Caerfyrddin
Caerfyrddin
SA31 1JP

Cyfeirnod: DO / JB

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2023

Annwyl Chris,

Cofnod Blynyddol Harbwr Porth Tywyn 2022-23

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n rhoi fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad cyfrifon blynyddol:

- wedi eu paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno i'r cofnodion gwaelodol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â'r trafodiadau a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac
- yn castio'n gywir.

Adroddiad archwilio ar y ffurflen flynyddol sy'n ymwneud â Harbwr Porth Tywyn am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:

Yn amodol ar gymeradwyo ffurflen flynyddol 2022-23 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd i'w wneud yn ei gyfarfod ar 27 Hydref 2023, byddwn yn gallu ardystio'r ffurflen flynyddol a chyhoeddi ein hysbysiad o gwblhau'r archwiliad a chadarnhau'r canlynol:

"Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan roi achos pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi'u bodloni."

Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read "Derwyn Owen". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Derwyn Owen

ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru